Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Twm**

**Ysgol Twm O'r Nant**
**Ffordd Rhyl**
**Dinbych**
**LL16 3DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Clwb Twm

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Twm |
| Lleoedd cofrestredig | 72 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers ailgofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau mynd i Glwb Twm. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn creu cyfeillgarwch ac yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda. Mae gan y plant yn dangos gwir ddiddordeb ac yn frwdfrydig yn eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel. Caiff y plant nifer o gyfleoedd i ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain. Maent yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd briodol.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw; mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ffordd gyfeillgar o roi gofal, ac maent yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Mae'r staff yn ymateb i ddiddordebau'r plant ac yn trefnu amrywiaeth o brofiadau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn lân. Maent yn gwneud yn siŵr bod y teganau, yr adnoddau a'r cyfarpar yn briodol o ran oedran a'u bod o ansawdd da. Mae digon o gyfleoedd a chyfarpar i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol a chydweithredol dan do ac wrth chwarae yn yr awyr agored yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n briodol. Maent wedi adeiladu tîm o staff sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â rhieni a gofalwyr. Gwnaed argymhellion er mwyn helpu gwelliannau pellach yn y dyfodol.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau ac â'r rheini sy'n gofalu amdanynt.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, roedd y plant yn awyddus i gyflwyno eu hunain ac i siarad am yr hyn y maent yn mwynhau chwarae â nhw. Gwnaethant siarad yn llawn brwdfrydedd am gyfrannu at amrywiaeth o brofiadau crefft ac awyr agored. Dywedodd un plentyn, yn llawn cyffro, '*mae'r go carts yn brilliant!'*. Ymatebwyd yn brydlon i geisiadau cwrtais y plant gan y staff yn ystod amser byrbryd i gael mwy o fwyd neu ddiod.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn paratoi eu hunain yn dda ar gyfer chwarae yn yr awyr agored neu ar gyfer amser mynd adref. Maent yn mynd at y staff yn hawdd i ofyn am bethau ac yn eu gwahodd i ymuno â nhw yn eu chwarae yn frwdfryding.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser byrbryd ac yn eistedd yn fodlon wrth y bwrdd gan ddefnyddio moesau da. Mae'r plant yn dysgu am garedigrwydd. Er enghraifft, gafaelodd ffrind hŷn yn llaw ei ffrind iau a'i annog i gicio'r bêl droed i mewn i'r gôl. Gwnaeth hyn y plentyn iau yn hapus, ac roedd yn falch o'i gyflawniad. Mae'r plant yn dysgu i gymryd eu tro ac i gydweithredu'n dda â'i gilydd. Er enghraifft, yn ystod gêm golff, roedd y plant yn cymryd eu tro i roi'r bêl mewn twll ac yn annog eu ffrindiau i roi cynnig arni. Gwnaethant drefnu gemau 'ping pong' a phêl droed eu hunain a gofyn i'r staff yn gwrtais i'w helpu i gadw sgôr.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau penbwrdd dan do fel posau, gemau a chrefft. Mae'r plant yn canolbwyntio'n briodol er mwyn eu cwblhau. Maent yn datblygu eu dychymyg yn dda wrth chwarae yn y gornel gartref a defnyddio amrywiaeth o bropiau perthnasol i greu golygfa amser te. Mae'r plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored yn yr awyr iach gan drefnu eu cwrs rhwystr eu hunain gan gynnwys dewis o gyfarpar naturiol a rhai wedi'u hailgylchu. Maent yn helpu ei gilydd i gerdded ar hyd y cwrs rhwystr ac mae hyn yn datblygu eu sgiliau corfforol a chydweithredol yn dda. Cafodd y plant lawer o hwyl yn mynd ar wib o amgylch yr iard ar sgwteri, 'go carts' a beiciau.

Mae'r plant yn meithrin eu hannibyniaeth yn addas. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd, ni roddwyd y cyfle i'r plant weini eu hunain â byrbrydau a diodydd. Cydnabuwyd hyn gan yr unigolyn cyfrifol a dywedodd eu bod yn gweithio ar syniadau i wella profiad amseroedd byrbryd. Maent yn dysgu sut i wneud y mwyafrif o bethau drostynt eu hunain gydag

anogaeth gadarnhaol gan y staff. Er enghraifft, mae'r plant yn casglu eu heitemau personol ac yn trefnu eu hunain yn briodol er mwyn bod yn barod i fynd adref.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cefnogi'r plant i siarad a mynegi eu hunain yn hyderus ac yn rhoi ymateb i'w gofynion sy'n gyson iddynt ac mewn modd amserol. Mae'r staff yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar.

Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac yn cofnodi presenoldeb y plant a nhw eu hunain yn gyson fel rhan o'u harferion diogelu ehangach er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, yn gadarnhaol. Darperir byrbrydau iach iddynt gyda dewis o lefrith neu ddŵr i'r plant ei yfed. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Maent yn annog y plant i ddatblygu eu sgiliau corfforol wrth chwarae yn yr awyr agored mewn awyr iach. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ond nid yw'r rhain y cael eu llofnodi gan rieni a gofalwyr bob amser i ddangos eu bod yn cael eu hysbysu. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd fel bod y plant a'r staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Maent yn cofnodi canlyniadau ymarfer tân i helpu gwelliannau ar gyfer ymarferion y dyfodol.

Mae'r staff yn annog y plant i gydweithio a bod yn garedig i'w ffrindiau. Maent yn cynnig amgylchedd cynnes a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur pan fydd angen. Mae hyn yn creu awyrgylch cyfforddus a hapus. Mae'r staff yn ymatebol ac yn sensitif i anghenion unigol pob plentyn.

Mae gan y staff ddull ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y plant yn arwain eu chwarae eu hunain mewn modd cadarnhaol. Mae'r staff yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r plant yn ystod eu gweithgareddau. Gwelwyd ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau diddorol i godi ymwybyddiaeth o'u treftadaeth Gymreig a dathliadau ehangach. Er enghraifft, gwnaeth y plant galonau cariad i ddathlu dydd Santes Dwynwen, addurno bisgedi a gwneud cwningod a chywion bach crefft ar gyfer y Pasg ac addurno coeden Nadolig. Dangosodd ffotograffau eraill blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd gan Urdd Gobaith Cymru ac yn cael profiad o chwarae synhwyraidd ag amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar, cyfeillgar a glân lle gall y plant chwarae a dysgu'n annibynnol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod asesiadau risg yn nodi'r peryglon posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli pwy all gael mynediad at y safle drwy'r system electronig yr ysgol sy'n derbyn i gofnodi'r ymwelwyr. Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad ei lyfr ymwelwyr ei hun i gadw cofnod o'r ymwelwyr sy'n dod i'r lleoliad. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod eu profiadau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn defnyddio arferion glanhau da. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut i ddelio ag argyfyngau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr. Mae'r ardaloedd chwarae yn fawr ac wedi'u trefnu'n ddeniadol gyda theganau o ansawdd da, adnoddau a dodrefn sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Caiff ardaloedd gorffwys eu cyflwyno mewn ffordd ddeniadol ac maent yn gwahodd plant i gael amser tawel i ddarllen llyfrau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o adnoddau i feithrin sgiliau iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant. Maent yn sicrhau bod gan y plant fynediad rhwydd i adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau cynaliadwy i feithrin eu sgiliau synhwyraidd a'u chwilfrydedd ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal ddynodedig ar gyfer eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn.

Mae'r buddsoddiad diweddar a wnaethpwyd yn yr ardal chwarae awyr agored yn cynnig ardal chwarae ddeniadol gyda dewis o gyfarpar o ansawdd da ac adnoddau i helpu i ddatblygu sgiliau corfforol a chydsymud y plant. Mae rhai cyfleoedd i’r plant ddysgu am y byd naturiol wrth blannu a thyfu blodau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol. Maent wedi adeiladu tîm o staff sy'n frwdfrydig. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithio'n galed ac yn ymrwymedig i greu canlyniadau gwell i'r plant. Gwnaed argymhellion er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaeth.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben boddhaol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, nid ydynt wedi adolygu eu polisïau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Er enghraifft, nid oedd y polisïau diogelu, bwyd a maeth yn adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol Cymru. Yn dilyn ein hymweliad, gweithredodd yr unigolyn cyfrifol ar unwaith i ddiweddaru'r ddau bolisi a chadarnhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau eraill wrthi'n cael eu hadolygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cyflwyno asesiad ar gyfer datganiad y gwasanaeth. Maent yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau o bwys sy'n cael effaith ar lesiant y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gosod disgwyliadau clir ac yn rheoli eu timau'n briodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau adroddiad i adolygu ansawdd y gofal. Maent wedi defnyddio'r sylwadau a gasglwyd gan y plant a'r rhieni i dynnu sylw at yr hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cynnwys sylwadau gan y staff neu asiantaethau proffesiynol eraill i werthuso'r lleoliad yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod gan y rhai sy'n gweithio yn y lleoliad dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Maent wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yng nghofnodion unigol y plant. Yn ystod ein hymweliad, nid oedd yr holl wybodaeth ofynnol i'w gweld yn ffeiliau cyflogaeth aelodau o'r staff i gadarnhau eu hunaniaeth. Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol ei fod wedi gweld y ddogfennaeth ofynnol ond nid oedd wedi ei chadw nac wedi rhoi cofnod yn y ffeil ei fod wedi ei gweld. Yn dilyn ein hymweliad, gweithredodd yr unigolyn cyfrifol ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn a chyflwyno tystiolaeth foddhaol i AGC. Gwnaeth yr unigolyn cyfrifol drafod y broses o sefydlu staff, ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi ar gyfer pob aelod o'r staff. Esboniodd yr unigolyn cyfrifol y caiff y staff eu goruchwylio'n anffurfiol drwy arsylwi eu hymarfer a thrwy drafodaethau â'r staff. Fodd bynnag, nid oes cofnodion o'r trafodaethau hyn i ddangos bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon i drafod eu llesiant, ymarfer, anghenion hyfforddiant, diogelu a datblygiad proffesiynol. Cyflwynodd yr unigolyn cyfrifol sampl o arfarniadau blynyddol a luniwyd gan y staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cofnodi pryderon diogelu, ond nid ydynt yn cadw cofnod o'r canlyniad a'r camau a gweithredu a gymerwyd. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hawdd mynd atynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r gymuned leol. Dywedodd y rhieni a'r gofalwyr eu bod yn hapus iawn gyda'r lleoliad, fod eu plant yn hapus i fynd yno, a bod y staff yn wych wrth ddarparu diweddariadau dyddiol i'r rhieni a'r gofalwyr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r ysgol sy'n cynnal y lleoliad ac maent yn datblygu syniadau i ddatblygu cysylltiad pellach â'r gymuned leol i wella ymwybyddiaeth y plant o'u hamgylchedd lleol ac i wella eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod yr holl gofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu dyddio a'u cydnabod yn rheolaidd gan rieni a gofalwyr i ddangos eu bod yn cael eu hysbysu'n rheolaidd. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod y pryderon am ddiogelu a gofnodwyd yn cynnwys y camau gweithredu a gymerwyd a'r canlyniadau. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Ffurfioli trafodaethau goruchwylio un i un â'r staff er mwyn dangos eu bod yn cael y cyfle i drafod eu llesiant, perfformiad, anghenion hyfforddiant, pryderon diogelu a datblygiad proffesiynol. Cynnwys gwybodaeth am gyfnod sefydlu'r staff yn eu ffeiliau cyflogi staff unigol i ddangos bod y staff wedi cael gwybodaeth am y lleoliad, eu rolau a'u cyfrifoldebau. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Cynnwys sylwadau gan y staff ac asiantaethau proffesiynol eraill i werthuso'r lleoliad yn llawn wrth ysgrifennu adroddiad i adolygu ansawdd y gofal. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff pob un o'r polisïau a'r gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol Cymru. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/01/2024